**RHEOLIADAU GWAITH MOROL (ASESIAD EFFAITH AMGYLCHEDDOL) 2007 (FEL Y'U DIWYGIWYD)**

**HYSBYSIAD PENDERFYNU YNGHYLCH CANIATÂD ASESIAD EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

**Tynnu ymaith rhannau segur o Ollyngfa Forol Gorlif Carthffos Gyfun (GCC) Llaneirwg**

Y mae'r Tîm Trwyddedu Morol, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru, yn rhoi caniatâd AEA i'r gwaith uchod tan Reoliad 22 Rheoliadau Gweithfeydd Morol (AEA) 2007.

Ceir manylion cyflawn y penderfyniad yn y ddogfen hysbysu caniatâd AEA, a gyhoeddir ar ein gwefan, hefyd. Canlyna'r penderfyniad hwn gais am drwydded forol tan Ran 4 Deddf y Môr a Mynediad I'r Arfordir 2009.

Wrth benderfynu ynghylch y caniatâd AEA, bu inni ddwyn mewn cof:

a) yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cais,
b) y Datganiad Amgylcheddol;
c) y ddeddfwriaeth berthnasol;
ch) sylwadau cyrff ymgynghorol a'r cyhoedd, ac yn neilltuol, sylwadau ynghylch yr effeithiau dichonol ar safleoedd AGA, Ramsar, SoDdGA ac ACA Aber Hafren, ac
d) effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y cynllun ar brosesau a geomorffoleg arfordirol, ansawdd dŵr a gwaddodion, planhigion ac anifeiliaid, a'r amgylchedd hanesyddol.

Yn dilyn hyn, casglasom na fyddai elfennau morol y cynllun yn effeithio'n sylweddol er gwaeth ar yr amgylchedd.

Y Tîm Trwyddedu Morol
Cyfoeth Naturiol Cymru